Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Y.G. Nantgaredig

**Heol Yr Osaf**
**Nantgaredig**
**SA32 7LG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn â Y.G. Nantgaredig

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | NANTGAREDIG |
| Awdurdod lleol | Sir Gaerfyrddin |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer o ddisgyblion ar y gofrestr | 216 |
| Nifer o ddisgyblion o oedran ysgol statudol | 146 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yn berthnasol) | 38 |
| Canran o ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%)* | 5% |
| Canran o ddisgyblion oedran ysgol statudol sydd ag angenion addysg arbennig (a)<br><br>(*Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag angenion addysg arbennig yn y sector cynradd yw 20.6%*) | 37% |
| Canran o ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 65.1% |
| Canran o ddisgyblion o oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Tachwedd 2009 |
| Dyddiad yr arolwg Estyn blaenorol (os yn berthnasol) | 10-06-2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolwg hwn | 21-03-2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data yma o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Flynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn yr arsylwyd yn ystod yr arolwg.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

[Fy Ysgol Leol (gov.wales)](Fy Ysgol Leol (gov.wales))

(a) Mae'r term 'angenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Nantgaredig yn ysgol hapus a chartrefol. Mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol i greu ethos gofalgar, Cymreig a chynhwysol. Mae'r canolfannau dysgu ychwanegol yn rhan annatod o fywyd yr ysgol, gyda'r disgyblion i gyd yn elwa o'r profiadau cyfoethog a ddaw o gydweithio gyda'i gilydd. Mae ymddygiad ac agweddau at ddysgu'r disgyblion yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae gan y disgyblion lais cryf ym mywyd yr ysgol gyda chyfleoedd rheolaidd i holi staff a dylanwadu ar benderfyniadau. Mae llais y dysgwr, sef 'Nantlais' yn ffordd effeithiol o gynnwys syniadau disgyblion yn themâu'r ysgol. Maent yn dathlu eu llwyddiannau a'r ffaith fod pawb yn wahanol ac yn bwysig.

Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn effeithiol iawn, gyda'r tîm rheoli yn adnabod agweddau gwaith yr ysgol sydd angen gwella, a'r camau sydd angen i wireddu hyn. Mae gweithgareddau monitro a gwerthuso'r ysgol yn graff ac yn gywir. Mae arweinwyr yn ystyried barnau'r rhieni a'r llywodraethwyr yn ofalus gyda eu llais yn dylanwadu'n briodol ar gyfeiriad yr ysgol. Mae arweinwyr yn rhannu eu gweledigaeth yn glir â phawb ac mae cymuned yr ysgol yn gweithio'n ddiwyd i 'ddysgu heddiw ar gyfer gwell yfory'. Mae gan y llywodraethwyr ymwybyddiaeth dda o waith yr ysgol a maent yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol iawn. Mae angen i'r ysgol mynd i'r afael â'r trefniadau trafnidiaeth ar fuarth yr ysgol pan mae rhieni a gofalwyr yn gollwng a chasglu eu plant ar ddechrau a diwedd pob dydd.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau sylfaenol yn gryf ar eu taith drwy'r ysgol. Maent yn datblygu'n fathemategwyr hyderus ac yn cael gafael gadarn ar y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol maent yn defnyddio eu medrau digidol mewn gwahanol ffyrdd er mwyn datrys problemau ac arddangos gwybodaeth yn fedrus. Mae'r staff yn sicrhau bod gan ddisgyblion falchder yn eu cymuned a'u gwlad ac yn datblygu ymwybyddiaeth o'u lle yn y byd. Er hyn, does dim digon o gyfleoedd iddynt wneud dewisiadau yn ddigon annibynnol ar draws yr ysgol, ac anghyson yw'r lefel o her a gynigir i ddisgyblion.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r mater iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad craidd

A2 Sicrhau fod yr addysgu yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau yn fwy annibynnol ar draws yr ysgol

A3 Rhannu'r arfer orau o fewn yr ysgol er mwyn cynnig lefel o her briodol i bob disgybl

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol llawer o'r disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed, heblaw yn y Gymraeg lle mae'r iaith yn newydd i tua hanner ohonynt. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda. Mae bron pob disgybl sydd yn mynychu'r canolfannau anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn dros gyfnod,.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n arbennig o dda ar oedolion ac ar ei gilydd. Mae medrau llafar disgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu'n llwyddiannus. Erbyn blwyddyn 2 maent yn sgwrsio yn hyderus yn y Gymraeg am eu gwaith a'u profiadau gan ddefnyddio tafodiaith leol yn naturiol. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'i gilydd er mwyn cynllunio a chreu lloches i drychfilod yn yr ardal tu allan. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu medrau llafar yn fedrus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol yn y ddwy iaith ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth gan fynegi eu barn yn glir ac aeddfed. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei ddefnyddio'n naturiol wrth sgwrsio gyda'i gilydd o fewn eu dosbarthiadau.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd. Erbyn blwyddyn 2, maent yn defnyddio eu medrau darllen yn hyderus, er enghraifft wrth ddarllen gwybodaeth i ddarganfod ffeithiau am enwogion Cymru. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith. Maent yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi yn gywir i ddangos eu dealltwriaeth. Yn ogystal, maent yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn bwrpasol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft wrth ddod o hyd i wybodaeth sydd yn dyfnhau eu dealltwriaeth o brif nodweddion y planedau a'r bydysawd.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad am fywyd Dewi Sant. Maent yn ymestyn eu syniadau'n effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus yn y ddwy iaith. Maent yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu cyfarwydd, paragraffu ac atalnodi. Maent yn addasu arddull a strwythur i wahanol destunau yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr ffurfiol yn datgan pryder am gynlluniau i foddi pentref er mwyn cyflenwi dŵr neu wrth ysgrifennu adroddiad yn disgrifio effaith y bomio ar Abertawe yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Ym mlynyddoedd ieuengaf yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Erbyn diwedd blwyddyn 2, mae ganddynt afael ddeallus ar ffeithiau rhif a mesur ac maent yn trin arian yn gywir. Erbyn brig yr ysgol, maent yn trosi ffracsiynau i ddegolion a defnyddio canrannau yn hyderus. Mae

ganddynt ddealltwriaeth sicr o rinweddau mathemategol. Mae hyn yn eu galluogi i ddehongli data mewn ffyrdd gwahanol ac i ddod o hyd i arwynebedd a pherimedr siapiau cyfansawdd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu [TGCh] llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn blwyddyn 2, maent yn cyfuno eu medrau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth reoli teclyn rhaglenadwy i symud o gwmpas map o'r ardal leol a chasglu data ar hoff liw disgyblion y dosbarth gan ddefnyddio rhaglen i gyflwyno eu canfyddiadau. Mae medrau y rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn adeiladu'n gadarn ar y sylfaen hon. Er enghraifft, maent yn defnyddio ystod eang o offer digidol i ddylunio a golygu patrymau ailadroddus wrth efelychu gwaith Mary Quant.

Mae medrau corfforol bron pob disgybl yn datblygu'n gadarn trwy amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau. Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn ymroi yn frwdfrydig i weithgareddau 'Mawrth Mwdlyd' ble maent yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol tra'n cwblhau tasgau gwahanol yn yr awyr agored. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu medrau corfforol drwy gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau chwaraeon neu fel rhan o'u thema er enghraifft wrth ddawnsio yn ystod eu gwaith am y 60au.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron pob disgybl yn dangos balchder am eu hysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn y naws gynhwysol a theuluol sydd yn bodoli. Maent yn hapus i drafod unrhyw bryderon gydag aelodau staff, gan fod yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt. Mae ymddygiad bron pob disgybl tu mewn a thu allan i'r dosbarth yn arbennig o dda. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, y staff ac ymwelwyr. Mae bron pob disgybl yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn cydweithio a chyd-chwarae yn gytûn. Cefnogir yr ethos o deulu ac empathi at eraill yn effeithiol iawn gan y 'ffrindiau ffeind'. Maent yn wyliadwrus iawn ar fuarth yr ysgol ac yn barod i ymateb i unrhyw dristwch neu ofidion ymhlith eu cyfoedion yn ddiffuant.

Mae bron pob un yn deall pwysigrwydd bod yn ddiogel ar-lein. Mae gan disgyblion ddealltwriaeth gadarn o beryglon all godi yn sgil defnydd anaddas o'r we. Mae'r rhan fwyaf yn deall sut i gadw'n iach trwy fwyta diet cytbwys, yfed dŵr a chadw'n heini. Yn ogystal â'r gwersi ymarfer corff rheolaidd, mae'r disgyblion hŷn yn datgan yn hyderus bod strategaethau iechyd meddwl yn hynod bwysig er mwyn sicrhau bywyd cyflawn. Maent yn trafod yn aeddfed drwy gyfeirio'n aml at fap 'Tŵr Twf' yr ysgol. Maent yn credu bod wynebu heriau, gwneud camgymeriadau a dyfalbarhau yn rhan naturiol o fywyd pob unigolyn.

Mae gan ran fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith yn ystod gwersi. Mae llawer yn ddysgwyr brwdfrydig, sy'n ymroi i brofiadau newydd yn hyderus. Mae rhan fwyaf ohonynt yn fodlon i drafod eu gwaith gyda'u cyfoedion. Maent yn dangos parch tuag at gyfraniadau eraill ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w syniadau. Mae llais y dysgwr, sef 'Nantlais', yn agwedd gref o fywyd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu. Maent yn mynegi barnau dilys, er enghraifft, gan gynnig syniadau i'w cynnwys yn y themâu tymhorol.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn gydwybodol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri, gyda disgyblion yn aelodau brwd o’r cyngor ysgol, y pwyllgor eco, y cyngor ysgol iach a’r arweinwyr digidol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’u gwaith arwain o fewn yr ysgol. Maent yn trafod eu cyfrifoldebau arwain yn hyderus ac yn cynnig rhesymau pwrpasol am wneud penderfyniadau cytûn ar ran eu cyfoedion.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol trwy eu hymwybyddiaeth o’r gwerthoedd sydd yn cael eu hyrwyddo gan yr ysgol. Mae’r disgyblion hŷn yn egluro gydag aeddfedrwydd pwysigrwydd cydraddoldeb fel rhan o'i gwaith ar hawliau. Er enghraifft mae'r cyngor ysgol yn gwneud gwaith gwerthfawr i ledaenu’r negeseuon cydraddoldeb mewn gwasanaethau. Mae bron pob disgybl yn rhan o gynllunio gweithgareddau i godi arian tuag at elusennau lleol a chenedlaethol. Maent wedi codi swm sylweddol o arian ar gyfer elusen plant gwlad Wcráin yn ddiweddar. Mae hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth y disgyblion am bwysigrwydd eu cyfraniadau i greu cymdeithas ofalgar.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o Faes Arolygu 4.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae’r staff yn gweithio’n grefftus i sicrhau perthnasoedd gwaith cryf gyda disgyblion. Maent yn annog parch a chwrteisi, sydd yn arwain at yr ethos cynhaliol sydd yn treiddio trwy'r ysgol. Mae'r athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gadarnhaol. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn barchus, yn ofalgar ac yn cynorthwyo ei gilydd yn effeithiol yn eu dysgu. Mae’r athrawon yn creu amgylchedd dysgu cynhwysol sydd yn galluogi disgyblion i fentro, dyfalbarhau a goresgyn heriau. Mae disgyblion y ganolfan a disgyblion eraill yn cydweithio’n effeithiol mewn nifer o weithgareddau ehangach sy'n cyfoethogi'r ethos o gynhwysiant ar draws yr ysgol.

Mae athrawon yn esbonio cysyniadau newydd yn dda. Maent yn annog disgyblion i wneud cysylltiadau effeithiol rhwng eu gwaith presennol a’u dysgu blaenorol ac yn sicrhau bod amrywiaeth i’r sesiynau dysgu. Maent yn defnyddio cydbwysedd o dechnegau effeithiol sy’n cynnwys gweithgareddau gwaith pâr a gwaith grŵp sy’n datblygu medrau ieithyddol a chymdeithasol yn effeithiol. Maent yn rhoi cyfarwyddiadau clir sy’n galluogi disgyblion i ymgymryd â’u gwaith yn hyderus. Mae athrawon yn gofyn cwestiynau yn bwrpasol i helpu disgyblion i ddeall ac ehangu eu gwybodaeth a’u medrau. Maent yn defnyddio canmoliaeth ac adborth yn bwrpasol er mwyn dathlu llwyddiannau a'u harwain at eu camau nesaf yn eu dysgu. Mae’r cyfleoedd i ddisgyblion asesu a myfyrio ar eu perfformiad eu hunain, a pherfformiad disgyblion eraill, yn datblygu’n briodol. Fodd bynnag, nid oes cysondeb o fewn y ddarpariaeth ar gyfer cynnig lefel o her briodol i bob disgybl.

Mae cwricwlwm yr ysgol wedi ei seilio ar addysgu medrau sylfaenol yn gadarn a’u cymhwyso mewn themâu sy’n ehangu a dathlu gwybodaeth disgyblion am eu treftadaeth, eu hardal leol a’r byd ehangach. Mae’r ddarpariaeth yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn llwyddiannus iawn gan atgyfnerthu balchder a mwynhad y disgyblion o'u hiaith a’u diwylliant. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion i

ymweld â'u hardal leol er mwyn cyfoethogi eu profiadau, er enghraifft trwy ddilyn taith yr afon Tywi neu ymweld ag archfarchnadoedd lleol. Mae staff y cyfnod sylfaen yn cynnig profiadau a gweithgareddau priodol sy'n datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r staff yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu a chymhwyso medrau disgyblion, er enghraifft wrth i ddisgyblion hŷn ddadansoddi data mewn arbrofion gwyddonol. Er hyn, nid yw'r addysgu yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau yn annibynnol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Mae'r ysgol yn myfyrio ar effeithiolrwydd y cwricwlwm yn rheolaidd ac maent yn rhoi ystyriaeth briodol i ddatblygiadau tuag at y cwricwlwm newydd i Gymru.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn hyrwyddo diwylliant, ieithoedd a threftadaeth Cymru yn hynod effeithiol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae gan y disgyblion balchder yn eu Cymreictod a thraddodiadau'r ardal. Mae'r ethos Gymraeg a Chymreig sy'n bodoli ym mywyd yr ysgol yn ymledu'n effeithiol i'r gymuned leol.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys rhaglenni cefnogaeth bwrpasol. Mae'r staff yn cydnabod pwysigrwydd ymyrraeth gynnar ac yn rhoi cefnogaeth gynhwysfawr i unigolion a grwpiau o ddisgyblion o oed ifanc. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol effeithiol. Maent yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a thargedau priodol i symud disgyblion ymlaen yn eu dysgu'n dda. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r disgyblion, yr athrawon a'r rhieni. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymgymryd â sesiynau ymarfer corff mewn gwersi a chlybiau allgyrsiol fel rygbi a phêl-rwyd. Mae'r trefniadau effeithiol hyn yn ysgogi'r disgyblion i gadw'n heini. Mae'r ysgol yn hyrwyddo lles disgyblion yn fwriadus ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd meddwl yn ogystal â'u hiechyd corfforol. Enghraifft dda o hyn yw'r sesiynau meddylgarwch dyddiol a gynhelir yn y dosbarthiadau. Mae agwedd bositif at ddatrys problemau wedi ei ymgorffori yn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar agwedd disgyblion at eu gwaith. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn aml yn annog disgyblion i 'aneli am y brig' neu i drio strategaeth arall. Mae hyn yn annog y disgyblion i ddyfalbarhau gyda'u gwaith yn llwyddiannus.

Mae'r ethos cynhwysol sy'n bodoli yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd da i fod yn aelodau o'r amrywiol gynghorau. Mae'r cynghorau yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae eu cyfraniad at waith yr ysgol a'r gymuned yn werthfawr iawn. Mae ethos yr ysgol, a'r gwasanaethau cydaddoli, yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r staff yn annog y disgyblion i ystyried safbwyntiau eraill yn sensitif, i gydnabod a pharchu amrywiaeth a phwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch. Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chartrefol. Mae staff yr ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi a pharch yn llwyddiannus. Mae'r gan yr ysgol ddiwylliant gref o ddiogelu plant. Mae yna ymdeimlad ac ethos gofalgar tuag at bob disgybl o fewn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau cyfredol i rieni a gofalwyr ddod a'u ceir i fuarth yr ysgol er mwyn gollwng a chasglu eu plant yn briodol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth effeithiol a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddo weledigaeth eglur sy'n seiliedig ar baratoi disgyblion heddiw ar gyfer gwell yfory. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. Mae aelodau'r tîm rheoli yn cefnogi'r pennaeth yn fwriadus. O ganlyniad, mae ethos gofalgar, gweithgar a Chymreig yn treiddio trwy holl weithgareddau'r ysgol. Mae pob aelod o staff yn sicrhau fod disgyblion y canolfannau anghenion dysgu yn rhan annatod o fywyd yr ysgol ac mae'r ymdeimlad o gynhwysiant yn greiddiol i'r ysgol.

Mae trefniadau hunanwerthuso yr ysgol yn drwyadl ac yn effeithiol. Mae arweinwyr yn ystyried tystiolaeth uniongyrchol a barn rhieni, disgyblion a staff drwy ddadansoddi holiaduron wrth werthuso perfformiad yr ysgol. Er bu rhaid addasu gweithgareddau'r broses monitro yn sgil y pandemig, mae arweinwyr yn adnabod agweddau sydd angen mynd i'r afael â hwy yn gywir. Golyga hyn fod yr ysgol yn medru blaenoriaethu eu gwaith yn berthnasol. Er enghraifft, yn dilyn y cyfnodau clo, mae'r blaenoriaethau yn canolbwyntio ar godi safonau lles a llythrennedd, gan baratoi yn fwriadus ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a'r rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol. Mae gweithgareddau mwyaf diweddar yr ysgol wedi adnabod bod angen cysoni'r lefel o her sy'n cael ei gynnig drwy'r ysgol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i'r ysgol, ac yn ei hadnabod yn dda. Drwy ailgydio mewn ymweliadau â'r ysgol, cymryd rhan mewn teithiau dysgu, gwirfoddoli a herio'r pennaeth ar ei adroddiadau rheolaidd, maent yn ymwybodol iawn o waith yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o natur yr addysgu a'r gefnogaeth a ddarparodd yr ysgol yn ystod y cyfnodau clo. Gweithiodd y llywodraethwyr yn agos gyda'r pennaeth i sicrhau fod dyfeisiadau digidol gan bob disgybl er mwyn lliniaru'r straen ar deuluoedd. Roedd hyn yn sicrhau fod gan bob disgybl mynediad i addysg rithiol yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn cydweithio gydag arweinwyr a'r disgyblion i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ag yfed yn iach. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn hyderus am arferion bwyta'n iach ac yn deall pwysigrwydd diet cytbwys.

Mae'r berthynas sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn un gadarn. Mae'r ysgol yn gweithredu polisi drws agored ac yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau ac ati. Mae'r staff yn trefnu gweithgareddau rheolaidd i godi ymwybyddiaeth rhieni am wahanol ffyrdd y gallent gefnogi eu plant gartref, fel yr hyfforddiant pwrpasol ar sut i fod yn ddiogel ar lein.

Mae'r pennaeth yn rheoli'r cyllid yn ofalus o dan ofal gwyliadwrus y corff llywodraethol. Maen nhw'n cefnogi'r ysgol i reoli a threfnu ei hadnoddau'n effeithiol, sy'n cynnwys y defnydd o'r grant datblygu disgyblion yn dda. Mae gan yr ysgol gynllun gwario synhwyrol sy'n sicrhau fod ganddynt ddigon o adnoddau i ddiwallu anghenion disgyblion yn bwrpasol. Mae athrawon yn defnyddio'r ardaloedd allanol yn addas i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Fodd bynnag, erbyn hyn mae cyflwr cynnal a chadw ychydig o offer yr ysgol wedi dirywio ac mae angen sylw arnynt.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i reoli perfformiad athrawon a chynorthwywyr sy'n seiliedig ar eu hanghenion proffesiynol unigol a blaenoriaethau'r ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr holl staff yn cael cyfleoedd da i ddatblygu'n broffesiynol.

Oherwydd y cyfyngiadau ar gwrdd ag eraill, maent wedi manteisio ar ddulliau rhithiol o fynychu hyfforddiant pwrpasol a rhannu arbenigeddau o fewn yr ysgol. Mae'r ysgol yn derbyn myfyrwyr o ddarparwr hyfforddi athrawon lleol yn rheolaidd. Mae staff yn gyfrifol am hyfforddi'r myfyrwyr mewn sawl maes. Mae hyn yn atgyfnerthu agwedd gadarnhaol yr holl staff tuag at ddysgu proffesiynol. Mae hyfforddiant effeithiol ar gyfer staff y canolfannau yn cryfhau ac ehangu eu gwybodaeth ar sut i drin â materion anghenion dysgu ychwanegol ar draws yr ysgol yn ogystal ag o fewn y canolfannau.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/05/2022